**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 7 Tachwedd 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L James (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P N Bentu | A Davis | M Durke |
| K M Griffiths | J A Hale | M Jones |
| E T Kirchner | W G Lewis | J D McGettrick |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): DD/B

---

**8 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr P N Bentu, A Davis, M Durke, K M Griffiths, J A Hale, L James, M Jones, E T Kirchner, W G Lewis, J D McGettrick ac L V Walton gysylltiadau personol â Chofnod Rhif 12 "Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023-2024 - Ymgynghoriad”.

**9 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

**10 Amseriad cyfarfodydd y cyngor - Arolwg.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn trafod Amser Cyfarfodydd y Cyngor - Arolwg. Trafododd y Pwyllgor yr arolwg a chynigiodd ei fod yn cael ei aildrefnu cyn iddo gael ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r arolwg Amser Cyfarfodydd yn amodol ar aildrefnu'r cwestiynau.

## 11 Adroddiad Blynyddol i Gynghorwyr.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i hysbysu'r Cynghorwyr o'u hawl i lunio Adroddiad Blynyddol y Cynghorwyr.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad a'i ddosbarthu i'r holl Gynghorwyr.

## 12 Adroddiad Blynyddol Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2023-2024 - Ymgynghoriad

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i ymgynghori â'r Pwyllgor a rhoi sylwadau arno, ac iddynt roi sylwadau ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023-2024. Byddai sylwadau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn arwain at adroddiad y cyngor a fyddai'n cynnig ateb ffurfiol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Penderfynwyd** y byddai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn:

1) Nodi cynigion Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022-2023;
2) Argymell yr ymateb ymgynghoriad diwygiedig i'r cyngor ar 1 Rhagfyr 2022.

## 13 Cynllun Gwaith 2022-2023. (Llafar)

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Cynllun Gwaith fel a ganlyn:

1) Ailedrych ar y Rhaglen Sefydlu (i gynnwys ystadegau presenoldeb);
2) Rhaglen Hyfforddiant i Gynghorwyr (y tu hwnt i sefydlu).

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.46 pm

**Cadeirydd**